**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**
**01766 832 398   clerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

# AGENDA Cyfarfod Arferol

**● 11 / 09 / 2023   ● Siambr y Cyngor ac ar-lein**

---

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]**

**NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd arlein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR**
**CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar:**

https://us02web.zoom.us/j/87329078217?pwd=MG1jMzJzVFlTUjlsVTJKZGd3WTVrZz09

**Meeting ID: 873 2907 8217**
**Passcode: 099019**

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 11EG MEDI 2023.**

## AT GADEIRYDD A CHYNGHORWYR CYNGOR TREF FFESTINIOG

## FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG 11EG MEDI 2023

**MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO.**

Noder bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

**NODYN**

Cyn cychwyn y cyfarfod am 7pm, cynhelir dau gyfweliad gan drigolion sy'n gwneud cais i fod yn Gynghorwyr Tref. Cynhelir un am 6.15pm a'r ail am 6.30pm, felly gwerthfawrogir os gall y Cynghorwyr fynychu cyn hynny er mwyn gallu gwneud hynny.

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datganiad o Ddiddordeb** - Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi a'i hanfon at y Clerc pan yn briodol. |
| **3.** | | Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. **Dalier Sylw: trafodaeth yn unig; ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei ddodi ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** |
| **4.** | | **Diweddariad gan yr Heddlu**<br>I dderbyn unrhyw adroddiad gan yr Heddlu. |
| **5.** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| **6.** | | **Derbyn a chadarnhau Cofnodion**<br><br>i. Cofnodion Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2023.<br>ii. Cofnodion Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2023.<br>iii. Cofnodion Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 4 Awst 2023. |

| | | |
|---|---|---|
| | | iv. Cofnodion Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 7 Awst 2023. |
| **7.** | | **Tir Carregfilltir**<br>Trafod sefyllfa Tir Carregfilltir. |
| **8.** | | **Penwythnos Hwyl yn y Parc**<br>Derbyn adroddiad ar benwythnos Hwyl yn y Parc, 19/20 Awst 2023. |
| **9.** | | **Datblygiadau yn yr ardal**<br><br>**Iechyd** – Derbyn adroddiad llafar ar ddiffibrilwyr. |
| **11.** | | **Taliadau a Derbyniadau**<br>Cymeradwyo taliadau a wnaed dros egwyl yr Haf / i'w gwneud ym mis Medi 2023. |
| **12.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br><br>**1.**<br>**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**<br>Rhif Cais / Application No.: C23/0663/03/DT<br>Lleoliad / Location: Fron Heulog Ffordd Glanypwll, Glan Y Pwll, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3NP<br>Bwriad / Proposal: Estyniad arfaethedig ac altrad<br>Proposed extension and alterations<br>**Rhif y Cais:**<br>C23/0663/03/DT<br>**Math o Gais:**<br>Cais Deiliaid Tŷ<br>**Bwriad:**<br>Estyniad arfaethedig ac altrad Proposed extension and alterations<br>**Ymgeisydd:**<br>Mr Doug Lloyd<br>**Asiant:**<br>Mr Osian Jones (Ty Architecture Cyf)<br>**Cyfeiriad:**<br>Fron Heulog Ffordd Glanypwll, Glan Y Pwll, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3NP<br>**Cyfeirnod Grid:**<br>269428.97, 346118.67<br>**Ward:**<br>Bowydd & Rhiw<br><br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=34419&language=cy<br><br>**2. a.**<br>**Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer trosi i adeilad cymunedol gan gynnwys newidiadau mewnol ac allanol ynghyd ag adeiladu estyniad**<br><br>**Tŷ'r Wern (cyn Eglwys St. Michael's), Llan Ffestiniog. LL41 4LS** |

**Listed Building Consent for conversion to community building including internal and external alterations together with the construction of an extension**

**Tŷ'r Wern (former St. Michael's Church), Llan Ffestiniog. LL41 4LS**

Math Caniatad: Caniatâd Adeilad Rhestredig Application Type: Listed Building Consent

Rhif Cais / Application Number: **NP5/59/LB475F**

Cyfeiriad Grid / Grid Reference: 269965 341902

**2.b.**
**Trosi cyn eglwys i adeilad cymunedol gan gynnwys newidiadau allanol ynghyd ag adeiladu estyniad**

**Tŷ'r Wern (cyn Eglwys St. Michael's), Llan Ffestiniog. LL41 4LS**

**Conversion of former church to community building including external alterations together with the construction of an extension**

**Tŷ'r Wern (former St. Michael's Church), Llan Ffestiniog. LL41 4LS**

Math Caniatad: Llawn Application Type: Full

Rhif Cais / Application Number: **NP5/59/LB475E**


Cyfeiriad Grid / Grid Reference: 269965 341902

https://planning.snowdonia-npa.gov.uk/swiftlg_snpa/apas/run/WPHAPPDETAIL.DisplayUrl?theApnID=NP5/59/LB475E&backURL=%253Ca%2520href%253Dwphappcriteria.display%253FpaSearchKey%253D1067444%253EMeini%2520Praw%2520Chwilio%253C%252Fa%253E%20%3E%20%3Ca%20href%3D%27wphappsearchres.displayResultsURL%3FResultID%3D1159107%2526StartIndex%3D1%2526SortOrder%3DAPNID%2526DispResultsAs%3DWPHAPPSEARCHRES%2526BackURL%3D%253Ca%2520href%253Dwphappcriteria.display%253FpaSearchKey%253D1067444%253EMeini%2520Praw%2520Chwilio%253C%252Fa%253E%27%3ECanlyniadau%20Chwilio%3C%2Fa%3E

**3.**
**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**
Rhif Cais / Application No.: C23/0532/03/LL
Lleoliad / Location: Fferm Neuadd Ddu, Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4AL
Bwriad / Proposal: Stablau pren / Timber stable

| | | |
|---|---|---|
| | | https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=34430&language=cy |
| **13.** | | **Diweddariad ar Y Berllan, Pant-yr-Ynn**<br><br>Derbyn diweddariad llafar ar Y Berllan. |
| **14.** | | **Adroddiad ar System Teledu Cylch Cyfyng y Cyngor Tref a Threfniadau Gweithio ar Eich Pen Eich Hun**<br><br>Derbyn adroddiad llafar ar yr uchod. |
| **15.** | | **Cais gan y Clwb Bowls**<br><br>Ystyried cais gan y Clwb Bowls i'r Cyngor Tref ariannu triniaeth y grîn eleni, yn sgil y ffaith bod y Cyngor Sir wedi rhoi'r gorau i wneud hyn. Amcangyfrifir mai'r gost fydd £300. |
| **16.** | | **Llythyr o ddiolch gan Dave Creamer**<br><br>Derbyn llythyr o ddiolch gan Dave Creamer, i'r Cyngor Tref am ganiatáu hedfan baner ar ddiwrnod coffa'r Llynges Fasnachol ar 3 Medi 2023:<br><br>*"Councillors,*<br><br>*On behalf of the North Wales branch of the Merchant Navy Association, I would like to thank you for granting us permission to fly the Red Ensign, the Merchant Navy flag, on the central flagpole in Blaenau Ffestiniog over the weekend of September 2nd/3rd. As you are no doubt aware, this is an annual event to commemorate the thousands of merchant seamen who paid the ultimate price in times of our country's conflicts. Your consent, along with councils throughout Wales and the United Kingdom, was very much appreciated. Diolch yn fawr.*<br><br>*Capt. David Creamer,*<br>*Chairman, North Wales branch, Merchant Navy Association."* |
| **17.** | | **Cais gan Joseff Edwards**<br><br>Ystyried cais gan Joseff Edwards, CIC Blaenau, i ddefnyddio'r Parc yn y Sgwâr unwaith eto ar nos Iau 21ain Medi 2023, rhwng 5.30 a 7.30pm. |
| **18.** | | **Neuadd Llan Ffestiniog**<br><br>Adroddiad llafar ar y sefyllfa mewn perthynas â Neuadd Llan Ffestiniog. |
| **19.** | | **Rhybudd o Gynnig**<br>Ystyried Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Rory Francis, fel a ganlyn: |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Mae'r Cyngor yn nodi y gallai'r lein rheilffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Thrawsfynydd fod yn adnodd gwerthfawr i'r gymuned, fel llwybr seiclo neu hyd yn oed fel rheilffordd, ond ei fod o wedi cael ei esgeuluso gan ei berchennog Network Rail, gan achosi problemau i trigolion lleol.*<br><br>*Mae'r Cyngor yn cefnogi ymdrechion gan yr AS Liz Saville Roberts ac eraill i berswadio Network Rail a'r Awdurdod Datgomisiynnu Niwclear i ddatgan a ydyn nhw'n bwriadu ailagor neu ddefnyddio'r lein yn y dyfodol, neu beidio, fel y gellir defnyddio'r lein at ddibenion eraill os nad yw'n mynd i gael ei ddefnyddio fel rheilffordd ar gyfer cyn-atomfa Trawsfynydd.*<br><br>*Mae'r Cyngor yn cefnogi ymdrechion gan Cwmni Bro ac eraill i drefnu prydles tacluso a dyddiau tacluso rheolaidd ar y rheilffordd, a hynny er mwyn gwella golwg y dref a dwyn perswâd ar Network Rail i ysgwyddo eu cyfrifoldebau o ran cadw'r lein y daclus.* |
| **20.** | | **Holiadur gan Gyngor Gwynedd**<br>Dwyn i sylw holiadur a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd a gwahodd y Cynghorwyr i'w gwblhau:<br><br>*"Mae dyletswydd statudol arnom fel cyngor sir i fonitro'r sefyllfa mewn perthynas â ffiniau cymunedau'r sir a'r trefniadau etholiadol o fewn y cymunedau hynny.*<br><br>*I'r perwyl yma rydym yn ysgrifennu at bob cyngor cymuned i gael y darlun gorau posib o'r sefyllfa gyfredol. Byddwn yn gwerthfawrogi felly pe baech yn cwblhau holiadur byr drwy glicio ar y ddolen isod.*<br><br>*https://forms.gle/SAYFDf5pMM7ZJd2i9*<br><br>*Byddwn yn yn ddiolchgar pe baech yn medru ei gwblhau erbyn 30 Medi 2023 fan bellaf ond rhowch wybod os oes gennych unrhyw gwestiynau yn y cyfamser.*<br><br>*Diolch yn fawr am eich cydweithrediad*<br><br>*Tîm Gwasanaethau Etholiadol"* |
| **21.** | | **Materion er Gwybodaeth**<br><br>Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb mewn pwyllgorau allanol. |
| | | |



Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref
DYDDIAD: 5 Medi 2023.

**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG Y CYNGOR**

**A GYNHALIWYD AR 24 GORFFENNAF 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths (cadeirydd)

Mark Thomas

Morwenna Pugh

Glyn Daniels

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor Tref

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Rory Francis, Linda Ann Jones, Dafydd Dafis, Eifiona Davies.

**2. Datganiad o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**3. Materion a ddylid eu trafod yn y cyfarfod fel rhai brys**

Nid oedd unrhyw faterion o’r fath.

**4. Cofnodion**

Cynigiodd Y Cynghorydd Glyn Daniels ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod cofnodion cyfarfod a Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf yn gywir, a chytunodd pawb.

Cynigiodd Y Cynghorydd Glyn Daniels ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 yn gywir, a chytunodd pawb.

**5. Cais Cynllunio – Amrywio Oriau Agor Morrison’s Daily**

Cynigiodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd Y Cynghorydd Glyn Daniels bod y Cyngor Tref ddim yn cyflwyno unrhyw wrthwynebiad a chytunodd pawb.

**6. Teledu Cylch Cyfyng**

Derbyniwyd adroddiad ar y system TCC a thrafodwyd y sefyllfa bresennol. Pwysleisiwyd bod angen sicrhau bod pawb yn deall mai’r Cyngor Tref oedd y Rheolydd Data a bod y Clerc yn hysbysu pawb perthnasol o hynny, gan gynnwys cyflenwr y system, gyda’r Cynghorydd Morwenna Pugh yn cynnig a’r Cynghorydd Mark Thomas yn eilio, a chytunodd pawb.

Trafodwyd hefyd sefyllfa diffyg camerâu i warchod swyddfa’r Clerc gan ddweud ei bod yn bwysig bod hyn yn cael ei drefnu cyn gynted ag y bo modd.

O ran cymryd penderfyniad terfynol ar ddyfodol y system, oherwydd mai dim ond pedwar cynghorydd a oedd yn bresennol, a phwysigrwydd rhoi cyfle i bawb leisio barn, cynigiodd Y

Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y mater yn cael ei ohirio am y tro, gan gynnig hefyd bod gwahoddiad yn cael ei ymestyn i'r Cynghorydd Sir Elfed Wyn ap Elwyn i fynychu'r cyfarfod hwnnw, a chytunodd pawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25pm

**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**A GYNHALIWYD AR 28 GORFFENNAF 2023**

**Cyfarfod Caeedig i'r Cyhoedd**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd) (ar Zoom)

Dafydd Dafis (ar Zoom)

Mark Thomas

Morwenna Pugh

Rory Francis

Linda Ann Jones

Eifiona Davies

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor Tref

**1. Ymddiheuriadau**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

**2. Datgan Buddiant**

Ni ddatganiwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Materion a ddylid gael eu hystyried fel rhai brys**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath.

**4. Swydd Dirprwy Glerc y Cyngor Tref**

Roedd un ymgeisydd wedi ei gyfweld gan y Pwyllgor Staffio ac roedd y Pwyllgor wedi cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn ei ystyried. Roedd problemau technegol gyda Zoom, ond cytunwyd bod modd cynnal y cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth helaeth ar y mater a gadawodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis am 7.20pm.

Cymerwyd penderfyniad gan fwyafrif bod y swydd yn cael ei chynnig i'r Cynghorydd Glyn Daniels, gyda'r cyfnod prawf arferol o dri mis a gyda'r amod ei fod yn ymddiswyddo o'i rôl gyda Phwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymdeithasol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45pm

**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**A GYNHALIWYD AR 4 AWST 2023**

**Cyfarfod Caeedig i'r Cyhoedd**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd)

Dafydd Dafis

Mark Thomas

Morwenna Pugh

Rory Francis

Linda Ann Jones

Eifiona Davies

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor Tref

**1. Ymddiheuriadau**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

**2. Datgan Buddiant**

Ni ddatganiwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Materion a ddylid gael eu hystyried fel rhai brys**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath.

**4. Swydd Dirprwy Glerc y Cyngor Tref**

Roedd y cyfarfod wedi ei alw i ail-ystyried y sefyllfa, gan fod Y Cynghorydd Glyn Daniels wedi mynegi na allai roi'r gorau i'w rôl gyda Phwyllgor Rheoli'r Ganolfan Ganolfan Gymdeithasol, ac roedd wedi cyflwyno llythyr yn amlinellu'r rhesymau am hynny, a oedd wedi ei ddosbarthu i'r aelodau ar ddechrau'r cyfarfod.

Ymddiheurodd Y Cynghorydd Linda Ann Jones am gamgymeriad a wnaeth gan esbonio y bu iddi ddatgan buddiant ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Staffio a pheidio â mynychu'r cyfweliad, ond iddi gael Cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr y Cyngor Sir ers hynny a oedd wedi dweud nad oedd angen iddi ddatgan buddiant dan yr amgylchiadau.

Cafwyd trafodaeth helaeth ar y mater, gyda safbwyntiau gwahanol yn cael eu mynegi gan y gwahanol gynghorwyr, gyda rhai yn teimlo bod y swydd wedi ei chynnig ar amod, ac os na ellid cydymffurfio â hynny, yna dylid tynnu'r cynnig yn ôl. Teimlai eraill y dylid cynnig y swydd heb yr amod, bod angen Dirprwy ar y Cyngor Tref er mwyn iddo allu cyflawni ei waith yn fwy effeithiol, a bod y ffaith nad oedd yn teimlo y gallai ymddiswyddo o'r Pwyllgor Rheoli yn dweud cyfrolau am ei gymeriad.

Roedd rhai yn pryderu y byddai'r Cyngor Tref yn torri rheolau pe cynigid y swydd nawr ar ôl pennu'r amod, tra bod eraill o'r farn mai penderfyniad y Cynghorwyr oedd hyn yn y pen draw, os oeddynt eisiau penodi. Aeth y ddadl yn boeth ar adegau ac ar ôl trafodaeth cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y Cyngor Tref yn ail-hysbysebu'r swydd gyda chynnydd mewn cyflog o 15% a sicrhau bod y Cyngor yn cadw'n llym at y Manyleb Person wrth geisio penodi yn y dyfodol ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh, gyda phawb yn cytuno.

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Clerc yn cysylltu gydag Un Llais i holi ynglŷn â'r Cynghorydd Linda Ann Jones yn datgan buddiant ar un achlysur ond wedyn yn mynychu ar ôl cael cyngor yn dweud nad oedd yn rhaid iddi, ac eiliodd Y Cynghorydd Eifiona Davies a chytunodd mwyafrif gyda hynny.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45pm.

**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG Y CYNGOR**

**A GYNHALIWYD AR 7 AWST 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths

Mark Thomas

Rory Francis

Elfed Wyn ap Elwyn, Cynghorydd Sir

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor Tref

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Linda Ann Jones, Eifiona Davies, Dafydd Dafis, Morwenna Pugh.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhwy fuddiannau.

**3. Materion a dylid eu trafod yn y cyfarfod fel rhai brys**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath.

**4. Adroddiad gan y Cynghorydd Sir Elfed Wyn ap Elwyn**

Roedd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn wedi ei ddosbarthu ymlaen llaw, ac fe gafwyd trafodaeth arno. Gofynnwyd rhai cwestiynau i'r Cynghorydd Elfed ar gynnwys yr adroddiad ac atebodd hwythau nhw.

Diolchwyd iddo yn fawr am yr adroddiad.

**5. System Teledu Cylch Cyfyng y Dref**

Ar ôl trafodaeth fer, a mynegi siom nad oedd mwy o gynghorwyr yn bresennol i drafod yr eitem hon a oedd wedi ei gohirio eisoes, penderfynwyd cymryd penderfyniad ar y mater yn y diwedd. Cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas y dylai'r Cyngor Tref ildio'r system, gan nad oedd bellach yn addas i'w phwrpas ac y byddai'n gofyn am fuddsoddiad ariannol a oedd yn rhy uchel i'r Cyngor ei wneud, a chynnig yr hyn ohoni a oedd yn gweithio i'r Heddlu ofalu amdani, os oeddynt yn dymuno ei mabwysiadu, a chytunodd pawb.

**6. Tendrau**

Trafodwyd y tendrau ar gyfer y gwaith glanhau a gwagio biniau, ac ystyriwyd adroddiad gan y Clerc ar y pwnc. Ar ôl trafodaeth fanwl, cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas y dylid cynnig tendr fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a chytunodd pawb.

Mewn perthynas â'r tendr torri gwair, cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis y dylid cynnig tendr fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, gyda'r ychwanegiad o dorri Cae Manod fwy nag unwaith y mis, a chytunodd pawb.

**7. Swyddfa Bost Londis**

Trafodwyd cwynion a oedd wedi do di ran y Cyngor Tref mewn perthynas â'r gwasanaeth a geir yn y Swyddfa Bost leol, a chynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod y Cyngor Tref yn anfon llythyr at berchennog Londis yn cyfleu pryderon y gymuned, a chytunodd pawb. Dywedodd y Cynghorydd Elfed y byddai yntau yn anfon llythyr fel Cynghorydd Sir.

**8. Arwyddion ar Ffensys Caeau Chwarae**

Trafodwyd achos yn ddiweddar o berson yn cael anffawd ddifrifol wrth ddringo ffens yn ardal awdurdod arall yng Ngogledd Cymru a'r syniad o osod arwyddion rhybuddio ar ffensys caeau'r Cyngor Tref.

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod y Cyngor Tref yn gofyn am brisiau i osod arwyddion o'r fath a chytunodd pawb.

**9. Dyfynbris gan North Wales Fencing**

Adroddwyd bod N W Fencing wedi rhoi pris i ychwanegu at uchder y ffens yng Nghae Manod i rwystro peli rhag taro ceir trigolion lleol, a chynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn hysbysu'r cwmni ei fod yn derbyn y pris a chytunodd pawb.

**10. Rhybudd o Gynnig**

Ystyriwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan Y Cynghorydd Rory Francis:

*Mae'r Cyngor yn nodi y gallai'r lein rheilffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Thrawsfynydd fod yn adnodd gwerthfawr i'r gymuned, fel llwybr seiclo neu hyd yn oed fel rheilffordd, ond ei fod o wedi cael ei esgeuluso gan ei berchennog Network Rail, gan achosi problemau i trigolion lleol.*

*Mae'r Cyngor yn cefnogi ymdrechion gan yr AS Liz Saville Roberts ac eraill i berswadio Network Rail a'r Awdurdod Datgomisiynnu Niwclear i ddatgan a ydyn nhw'n bwriadu ailagor neu ddefnyddio'r lein yn y dyfodol, neu beidio, fel y gellir defnyddio'r lein at ddibenion eraill os nad yw'n mynd i gael ei ddefnyddio fel rheilffordd ar gyfer cyn-atomfa Trawsfynydd.*

*Mae'r Cyngor yn cefnogi ymdrechion gan Cwmni Bro ac eraill i drefnu prydles tacluso a dyddiau tacluso rheolaidd ar y rheilffordd, a hynny er mwyn gwella golwg y dref a dwyn perswâd ar Network Rail i ysgwyddo eu cyfrifoldebau o ran cadw'r lein y daclus.*

Gan nad oedd eilydd i'r Cynnig, ni chafodd y mater ei drafod yn y cyfarfod.

**11. Llythyr Ymgynghorol Cyn Gwneud Cais – Rhwydwaith Gweledig a Rennir**

Mynegodd Y Cynghorydd Mark Thomas bryderon ynglŷn â'r ymgynghoriad cyn gwneud cais hwn am osod mast newydd yng Nghwt y Bugail oherwydd lefelau EMF yn deillio o 4G a 5G yn effeithio iechyd y genhedlaeth nesaf. Dywedodd Y Cynghorydd Rory Francis nad oedd ganddo ef yr un pryderon. Ar ôl trafodaeth, cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod y Clerc yn anfon yn ôl at yr ymgeisydd yn gofyn am wybdoaeth bellach ar lefelau 4G a beth fyddai ar ôl 5G a gofyn hefyd am gopi o'r Asesiad o Effaith Amgylcheddol y cais a chytunodd pawb.

**12. Rhestr Taliadau**

Derbyniwyd y rhestr o daliadau a derbyniadau a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen.

Death y cyfarfod i ben am 7.50pm